**WHC/2023/015**

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Dyddiad Cyhoeddi:** 09/05/23

**STATWS: GWEITHREDU /GWYBODAETH**

**CATEGORI: IECHYD Y CYHOEDD**

**Teitl:** Cyfnodau Arsylwi Brechu COVID-19/ Brechu ar ôl gwella o COVID-19

**Dyddiad dod i ben/Adolygu:** Ddim yn berthnasol

**I'w weithredu gan:**

Prif Weithredwyr, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Arweinwyr Imiwneiddio, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Cydgysylltwyr Imiwneiddio, Byrddau Iechyd
Arweinwyr Brechu rhag COVID-19, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Meddygol, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Prif Fferyllwyr, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Pennaeth y Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyfarwyddwr Cynllunio, Uned Gyflawni GIG Cymru
Fferylliaeth Gymunedol Cymru
Cyngor Ymarferwyr Cyffredinol, Cymru
Ymarferwyr cyffredinol
Fferyllwyr cymunedol

**Anfonir gan:** Dr Frank Atherton, y Prif Swyddog Meddygol / Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru

**Enw(au) Cyswllt yng Ngrŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:**
Yr Is-adran Frechu, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ
E-bost: LlC.TimYRhaglenFrechu@llyw.cymru

Annwyl Gydweithiwr,

Wrth i raglen brechiadau atgyfnerthu’r gwanwyn rhag COVID-19 fynd rhagddi, ac yn sgil datganiad y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) a gyhoeddwyd ar 6 Ebrill yn amlinellu’r sefyllfa o ran rhoi brechiadau COVID-19 i fabanod 6 mis i 4 oed mewn grwpiau risg clinigol, hoffwn atgoffa cydweithwyr o'r canllawiau ar gyfnodau arsylwi ar ôl brechu, i'r rhai sy'n cael brechiad atgyfnerthu ac i’r rhai sy'n cael prif ddos o frechlyn COVID-19.

Yn gyntaf, dylid parhau i reoli oedolion a phlant sydd â hanes o alergedd yn unol â'r cyngor ym Mhennod 14a y Llyfr Gwyrdd.

I oedolion a phlant heb hanes o alergedd (fel y'i disgrifir yn y Llyfr Gwyrdd), mae'r gofyniad cyffredinol am gyfnod arsylwi 15 munud wedi’i atal ar hyn o bryd ar argymhelliad Prif Swyddogion Meddygol y DU a gyda chytundeb y Comisiwn ar Feddyginiaethau Dynol. Fodd bynnag, yn unol â'r canllawiau a nodir yng Cylchlythyr Iechyd Cymru 2023/09, dylai'r grwpiau canlynol barhau i gael cyfnod arsylwi am 15 munud ar ôl cael eu brechu.

- Unigolion sydd wedi’u cofrestru fel pobl ag anabledd dysgu sy'n cael brechlyn COVID-19 am y tro cyntaf.

- Oedolion a phlant heb alluedd sy’n cael brand o frechlyn COVID-19 am y tro cyntaf.

Mae'r canllawiau ar gyfnodau arsylwi yn cael eu hadolygu'n gyson. Bydd unrhyw newidiadau yn cael eu cyfleu i gydweithwyr ar unwaith.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn hefyd i egluro nad oes angen gohirio brechiad i oedolion na phlant mwyach ar ôl iddynt wella o gyfnod diweddar o symptomau cydnaws, p'un a yw'r claf wedi'i brofi am COVID-19 ai peidio.

Diolch i chi i gyd am eich ymdrechion parhaus i roi’r rhaglen frechu hanfodol a hynod lwyddiannus hon ar waith.

Yn gywir,

Syr Frank Atherton
Y Prif Swyddog Meddygol / Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru